Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

03 Awst 2026

Annwyl Syr/Fadam,

# Ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau arfaethedig i wiriadau a ffioedd yn ymwneud â mewnforio planhigion, cynnyrch planhigion a gwrthrychau eraill.

Ysgrifennaf i'ch hysbysu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, a Gweinidogion Cymru a'r Alban, ynglŷn â'r newidiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Lloegr) 2018, Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018, Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Yr Alban) 2014 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022, y bwriedir iddynt ddod i rym pan weithredir y cytundeb iechydol a ffytoiechydol newydd gyda'r UE.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad A. Dylid anfon sylwadau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i plantpestsrisks@defra.gov.uk erbyn **25 Medi 2026**.

Gallai sylwadau a gyflwynir mewn ymateb i'r llythyr hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael eu rhannu â'r cyhoedd os gwneir cais amdanynt, yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os nad ydych yn dymuno i'ch ymateb fod ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys eich enw, manylion cysylltu ac unrhyw wybodaeth bersonol arall, dylech nodi hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich sylwadau. Sylwer, os yw eich cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd awtomatig, ni fydd hyn yn cyfri fel cais am gyfrinachedd. Dylech egluro pam y mae arnoch angen cadw manylion yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried eich rhesymau os bydd rhywun yn gofyn am yr wybodaeth dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Er hyn, ni allwn warantu y gallwn gadw'r manylion hynny'n gyfrinachol bob amser.

Yr eiddoch yn gywir,

**Sam Bishop**
Pennaeth Polisi Iechyd Planhigion a Gwenyn a PVS
Defra
+ 44 (0) 7827 976902
sam.bishop@defra.gov.uk

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE
INVESTORS IN PEOPLE

## Atodiad A – Ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau i wiriadau a ffioedd sy'n ymwneud â mewnforio planhigion, cynnyrch planhigion a gwrthrychau eraill

### Adran 1 – Cyflwyniad

1.1. Bwriad y broses hon o ymgysylltu â rhanddeiliaid yw eich hysbysu ynghylch diwygiadau i'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â ffioedd, arolygu mewnforio, a rheolaethau swyddogol iechyd planhigion fel y maent wedi'u hamlinellu yn y llythyr eglurhaol. Mae diwygiadau'n cael eu gwneud i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Lloegr) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("rheoliadau ffioedd Cymru a Lloegr"), Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Yr Alban) 2014, a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022.

1.2. Fel rhan o'r cytundeb iechydol a ffytoiechydol arfaethedig rhwng y DU a'r UE, bydd Prydain Fawr yn cydweddu ag amlder arolygu mewnforio'r UE (gwiriadau dogfennau, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol). Bydd y newidiadau a gynigir yma yn sicrhau bod ffioedd yn cael eu cydweddu â'r gwiriadau amlder mewnforio wedi'u diweddaru (gwiriadau dogfennau, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol) ar gyfer nwyddau sy'n cael eu mewnforio i Gymru, Lloegr a'r Alban o Weddill y Byd (h.y. trydydd gwledydd nad ydynt yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd).

- Dileu ffioedd ar gyfer gwiriadau mewnforio ar nwyddau o'r UE.
- Diwygiadau i'r ffi gwiriad dogfennau ar gyfer mewnforion o Weddill y Byd.
- Diwygiadau i'r ffioedd gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod ar gyfer mewnforion o Weddill y Byd.

1.3. Mae'r diwygiadau hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau bod Cymru, Lloegr a'r Alban yn codi'r tâl cywir am wasanaethau iechyd planhigion, ar ôl gweithredu'r cytundeb iechydol a ffytoiechydol gyda'r UE.

### Adran 2 – Newidiadau arfaethedig

#### 2.1 Dileu ffioedd ar gyfer gwiriadau ar fewnforion o'r UE

Byddwn yn dileu ffioedd ar gyfer gwiriadau dogfennau, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau sy'n cael eu mewnforio'n uniongyrchol i Gymru, Lloegr a'r Alban o aelod-wladwriaethau'r UE gan na fyddai'r gwiriadau hyn yn digwydd dan y cytundeb iechydol a ffytoiechydol.

#### 2.2. Diwygiadau i ffioedd gwiriadau dogfennau

Rydym yn diwygio rheoliadau ffioedd Cymru, Lloegr a'r Alban er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond un ffi fydd ar gyfer gwiriad dogfennau, a fydd naill ai'n £5.25 neu'n £6.00. Hon fydd y ffi a fydd yn daladwy gan fewnforiwr llwyth o Weddill y Byd mewn cysylltiad â gwiriad dogfennau o bob tystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n mynd gyda'r llwyth.

**2.3 Diwygiadau i ffioedd arolygu ffisegol a gwiriadau adnabod**

Mae tabl cryno i'w weld isod o'r ffioedd dangosol ar gyfer arolygu ffisegol a gwiriadau adnabod yng Nghymru a Lloegr. Y ffi ar gyfer gwiriad dogfennau fydd £5.25 ym mhob achos. Nid yw unrhyw gyfeiriad at 'drydedd wlad' yn y tabl yn cynnwys aelod-wladwriaethau'r UE:

| Categori a disgrifiad o'r planhigyn, cynnyrch planhigyn neu wrthrych arall | Gwlad tarddiad | Ffi: Gwiriad ffisegol (£) | Ffi: Gwiriad adnabod (£) | Ffi: Gwiriad dogfennau (£) |
|---|---|---|---|---|
| Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron (ac eithrio cloron tatws), winwns/nionod, sialóts, garlleg, cennin a llysiau garllegaidd eraill, cwsg, nad ydynt mewn swbstrad | Unrhyw drydedd wlad | 205.04 | 5.25 | 5.25 |
| Toriadau, eginblanhigion a fwriedir ar gyfer eu plannu, nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn | Unrhyw drydedd wlad | 173.91 | 5.25 | 5.25 |
| Planhigion i'w plannu - Llwyni, coed (ac eithrio coed Nadolig wedi eu torri), planhigion meithrinfa prennaidd eraill gan gynnwys deunyddiau atgenhedlol y goedwig (ac eithrio hadau) | Unrhyw drydedd wlad | 182.38 | 5.25 | 5.25 |
| Planhigion i'w plannu – Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu, nad ydynt wedi eu pennu mewn lle arall yn y tabl hwn | Unrhyw drydedd wlad | 182.38 | 5.25 | 5.25 |
| Hadau (ar gyfer hau), meithriniad meinwe | Unrhyw drydedd wlad | 128.13 | 5.25 | 5.25 |
| Canghennau â deiliach, rhannau o goed Conwydd (ac eithrio rhisgl neu goed Nadolig wedi eu torri) | Unrhyw drydedd wlad | 33.99 | 5.25 | 5.25 |
| **Blodau wedi eu torri** | | | | |
| *Aster* | Zimbabwe | 32.06 | 3.93 | 5.25 |
| *Dianthus* | Colombia | 1.28 | 0.15 | 5.25 |
| | Ecuador | 4.27 | 0.52 | 5.25 |
| | Kenya | 2.13 | 0.26 | 5.25 |
| | Twrci | 4.27 | 0.52 | 5.25 |
| *Gypsophila* | Ecuador | 2.13 | 0.26 | 5.25 |
| | Kenya | 1.28 | 0.15 | 5.25 |
| *Phoenix* | Costa Rica | 21.37 | 2.62 | 5.25 |
| *Rosa* L. | Colombia | 2.18 | 0.26 | 5.25 |
| | Ecuador | 0.42 | 0.05 | 5.25 |
| | Ethiopia, Kenya | 10.68 | 1.31 | 5.25 |
| | Zambia | 32.06 | 3.93 | 5.25 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Genera eraill nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn | Unrhyw drydedd wlad | 42.75 | 5.25 | 5.25 |
| **Ffrwythau, llysiau, dail** | | | | |
| *Actinidia* | Pob trydedd wlad | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Carica papaya* | Pob trydedd wlad | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Fragaria* | Pob trydedd wlad ac eithrio’r Aifft | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Persea americana* | Pob trydedd wlad ac eithrio Cameroon | 1.59 | 0.15 | 5.25 |
| *Rubus* | Pob trydedd wlad | 1.59 | 0.15 | 5.25 |
| *Vitis* | Pob trydedd wlad | 0.53 | 0.05 | 5.25 |
| Citrus | Yr Aifft | 26.55 | 2.62 | 5.25 |
| Citrus, ac eithrio Citrus sinensis | Israel | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| Citrus | Mecsico | 26.55 | 2.62 | 5.25 |
| Citrus | Morocco | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| Citrus | Periw | 5.31 | 0.52 | 5.25 |
| Citrus | Twrci | 1.59 | 0.15 | 5.25 |
| *Malus* | Yr Ariannin | 39.82 | 3.93 | 5.25 |
| *Malus* | Chile | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Malus* | Trydydd gwledydd Ewropeaidd* | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Malus* | Seland Newydd | 7.96 | 0.78 | 5.25 |
| *Malus* | De Affrica | 5.31 | 0.52 | 5.25 |
| *Mangifera* | Brasil | 26.55 | 2.62 | 5.25 |
| *Passiflora* | Colombia | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Passiflora* | Réunion | 5.31 | 0.52 | 5.25 |
| *Passiflora* | De Affrica | 26.55 | 2.62 | 5.25 |
| *Passiflora* | Fietnam | 5.31 | 0.52 | 5.25 |
| *Prunus* | Yr Ariannin | 26.55 | 2.62 | 5.25 |
| *Prunus* | Chile | 7.96 | 0.78 | 5.25 |
| *Prunus* | Trydydd gwledydd Ewropeaidd* ac eithrio Twrci | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Prunus* | De Affrica | 5.31 | 0.52 | 5.25 |
| *Psidium* | Brasil | 39.82 | 3.93 | 5.25 |
| *Pyrus* | Yr Ariannin | 7.96 | 0.78 | 5.25 |
| *Pyrus* | Chile | 7.96 | 0.78 | 5.25 |
| *Pyrus* | Tsieina | 13.27 | 1.31 | 5.25 |
| *Pyrus* | Trydydd gwledydd Ewropeaidd * | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Pyrus* | De Affrica | 5.31 | 0.52 | 5.25 |
| *Vaccinium* | Yr Ariannin | 18.58 | 1.83 | 5.25 |
| *Vaccinium* | Chile | 5.31 | 0.52 | 5.25 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Vaccinium* | Trydydd gwledydd Ewropeaidd* | 13.27 | 1.31 | 5.25 |
| *Vaccinium* | Periw | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| *Solanum lycopersicum* | Yr Ynysoedd Dedwydd | 7.96 | 0.78 | 5.25 |
| *Solanum lycopersicum* | Morocco | 0.53 | 0.05 | 5.25 |
| Gwreiddlysiau a llysiau cloron, ac eithrio cloron *Solanum tuberosum, Curcuma longa* a *Zingiber officinale* | Pob trydedd wlad ac eithrio Cameroon | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| Gwreiddiau a chloron *Curcuma longa* | Pob trydedd wlad ac eithrio Gwlad Thai, Periw a Cameroon | 7.96 | 0.78 | 5.25 |
| Gwreiddiau a chloron *Zingiber officinale* | Pob trydedd wlad ac eithrio Periw a Cameroon | 2.65 | 0.26 | 5.25 |
| Genera neu rywogaethau eraill o ffrwythau neu lysiau nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn | Unrhyw drydedd wlad | 53.1 | 5.25 | 5.25 |
| Dail eraill nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn | Unrhyw drydedd wlad | 71.68 | 5.25 | 5.25 |
| Grawn (ac eithrio hadau ar gyfer hau) | Unrhyw drydedd wlad | 142.98 | 5.25 | 5.25 |
| Cloron tatws (tatws hadyd neu datws bwyta) | Unrhyw drydedd wlad | 156.69 | 5.25 | 5.25 |
| Coed Nadolig wedi eu torri (llai na 3 metr o uchder) | Unrhyw drydedd wlad | 119.64 | 5.25 | 5.25 |
| Pridd a chyfrwng tyfu, rhisgl | Unrhyw drydedd wlad | 119.64 | 5.25 | 5.25 |
| Peiriannau neu gerbydau sydd wedi cael eu gweithredu at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth | Unrhyw drydedd wlad | 5.98 | 0.26 | 5.25 |

*Trydydd gwledydd Ewropeaidd = Albania, Andorra, Armenia, Azerbaijan, Belarws, Bosnia a Herzegovina, Georgia, Gogledd Macedonia, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Moldofa, Monaco, Montenegro, Norwy, Rwsia (dim ond y rhannau a ganlyn: y Rhanbarth Ffederal Canolog (Tsentralny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y Gogledd-orllewin (Severo-Zapadny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y De (Yuzhny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal Gogledd y Cawcasws (Severo-Kavkazsky federalny okrug) a Rhanbarth Ffederal y Folga (Privolzhsky federalny okrug)), San Marino, Serbia, Twrci, Wcráin, yr Ynysoedd Dedwydd ac Ynysoedd Ffaro.

Mae'r ffioedd dangosol ar gyfer arolygu ffisegol a gwiriadau adnabod yn yr Alban i'w gweld drwy ddilyn y ddolen isod. Ffi y gwiriad dogfennau fydd £6.00 ym mhob achos:

https://www.sasa.gov.uk/document-library/indicative-plant-health-import-inspection-fees-stakeholder-engagement-third.